06.06.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Nyrsys yn chwarae rhan hanfodol ym mhractis y fets

Mae gwylwyr y gyfres boblogaidd **Y Fets** ar S4C yn aml yn rhyfeddu at waith anhygoel milfeddygon Ystwyth Vets yn Aberystwyth i achub a thrin anifeiliaid bach a mawr.

Ond, yn gefn iddyn nhw bob amser, mae'r nyrsys milfeddygol sydd nid yn unig yn cynnig cymorth i'r fets ond yn gweithio'n galed iawn i sicrhau fod pob anifail yn cael y gofal gorau.

Mae'r fet Kate Sullivan yn gwerthfawrogi gwaith y nyrsys yn fawr iawn.

"Un peth 'da ni'n gallu dweud - a bydd pawb yn cytuno da fi - gallwn ni neud dim byd heb y nyrsys," meddai Kate. "Dwi'n dibynnu'n llwyr arnynt yn fy ngwaith i. Maen nhw wrthi trwy'r amser yn cadw pethau i fynd a gwneud yn siŵr bod popeth yn ei le. Mae fy edmygedd tuag atyn nhw yn tyfu pob dydd."

Mae'r prif nyrs Nerys Daniel yn wyneb cyfarwydd yng nghyfres **Y Fets** a dyma hi yn esbonio rhywfaint am waith nyrs milfeddygol.

"I fod yn *vet nurse* mae'n rhaid i chi fod yn eitha' brwdfrydig. Mae rhaid i chi lico anifeiliaid a rhaid i chi allu gweithio mewn tîm. Mae'n rhaid gweithio gyda'r fets, gweithio gyda'r nyrsys eraill a *reception* hefyd. Mae rhaid i chi fod yn fodlon i wneud bron unrhyw beth gyda'r anifail," meddai Nerys.

"Ni'n delio gyda lot o sefyllfaoedd emosiynol – mae'n rhaid i chi beidio meddwl amdano fe fel gwaith - da ni wastod yma i helpu."

Mae un wyneb newydd wedi cyrraedd practis Ystwyth Fets y tro hwn, sef nyrs cynorthwyol Cari Davies - ac mae hi'n cael modd i fyw yn gweithio yna.

Mae gan Cari awtistiaeth ac mae ganddi gyflwr niwrolegol sy'n achosi iddi ddioddef llawr o boen.

Meddai Cari: "Mae'n anodd iawn fel person awtistig i gael swydd. Ond mae pawb yn y gwaith wedi bod mor *brilliant* gyda fi. Dwi'n dod mewn a jysd yn teimlo fel rhan o'r tîm a dwi erioed wedi teimlo fel 'na o'r blaen.

Mae Cari yn dwlu ar anifeiliaid ac mae ganddi dair cath, chwe iâr, cwningen, ci, pedwar mochyn cwta, pysgodyn a phump *stick insect*!

"Dwi'n hoffi bod mewn cwmni anifeiliaid - mae'n rhoi mwy o hyder i fi i fod llai dibynnol ar bobl. Dwi'n teimlo mor ffodus i gael y jobyn sydd genna i."

Yn ogystal â dod i nabod gwaith y nyrsys milfeddygol, yn y bennod hon 'da ni'n dilyn y fets Phil Thomas ac Iwan Lewis wrth iddynt ymweld â dwy fferm wahanol sy'n cael trafferthion gyda lloia a menyw sy'n poeni ei henaid am ei theulu yn Wcráin sydd â chath sydd angen triniaeth ar frys.

Dewch i ddarganfod mwy am waith y fets a'r nyrsys a hanes yr anifeiliaid a'r perchnogion sydd angen help yn **Y Fets** pob nos Iau ar S4C a S4C Clic.

**Y Fets**
**Nos Iau 16 Mehefin 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

*Viewers of the popular S4C series **Y Fets** (The Vets) often wonder at the amazing work of the vets at Ystwyth Vets as they treat animals big and small. But the veterinary nurses are always there to support them in their work and to ensure that each animal has the best care possible. This week we take a look at the amazing work the nurses do.*